

5 DYMA WYLIAU HYFRYD LLAWEN

(HERE IS A SPLENDID JOYFUL FESTIVAL)

1. Dym-a Wyl-iau hyf-ryd llaw-en Y caf-wyd les-u Grist yn fachgen; Yng nghôr yr ych ym Meth-lem Ji-w-da Y gan-wyd Ef o groth Mar-ei-a. Ag-or-wyd yn-o'r drug- ar-edd-fa Oedd wed-i ei chau er cod-wm Add-a; Gan Fab Duw'r oedd ag-or-iad-au I ag-or drys-au yr holl drys-or-au.

2. Fe gafwyd yno berlau hyfryd
I oleuo'r ffordd i Dir y Bywyd,
A chafwyd olew, heb ddim mesur.
I w roi ym mriwiau pob pechadur.
Yno caed y pur awelon
I wneud yn fyw i'r holl esgyrn sychion
Oedd yn y dyffryn gynt cyn lawned
A thr yr Eifftied o locustied.

3. Yno cafwyd meddyginaeth
I rai cloffion radio'n berffaith,
Y dall i weled a'r mud lefaru.
A gwahangleifion wedi hynny.
Ni bu erioed un doctor ffisig
Ar y ddaear, nac un meddyg.
Yn gyffelyb i'r Meseia,
Sef y doctor mawr enedigaeth.

4. Fe gynigiodd Iesu tirion
Ei iachawdwriaeth i'r Iddewon;
Am ei gariad fe gadd gerydd,
Bu yntau iddynt yn faen tramgwydd.
Dioddefodd goron ddrain a'i wawdio,
Ei fflangellu a'i gernodio;
Yn y diwedd cadd, mewn dicter,
Ei groeshelio rhwng dau leifer.

5. Pan oedd Iesu Grist yn dioddau,
Haul y Nefoedd fawr dywyllai;
Y ddaear lawr, fe grynnod hithau
Pan oedd Iesu Grist mewn poenau.
Y trydydd dydd ar ôl ei gladdu,
Er gwaethaf angau, codai i fyny.
Ac aeth at ei wir ddisgyblion
I ddangos iddynt ôl yr hoelion.

6. Ymhen y deugain dydd, mewn llwyddiant,
Yr aeth i Nefoedd y Gogoniant,
I eiriol dros yr etifeddion
Sydd ar y ddaear mewn peryglon,
A phan ddeulo eto i farnu
Rhaid i bawb ar sydd yn pydru
Yn y môr a'r tir ymburio
I roddi cyfri o'r hyn aeth heibio.

7. Rhawn fawl, "Hosanna! Haleliwia!",
O glod i'r Oen fu ar Galfaria,
Am iddo roi ei waed yn ffrydia
Er mwyn i ni gael llwyr ddihangfa.
Gogoniant fyth i enw'r Iesu
Am ein cadw a'n diogelu;
Dwg ni, O Dduw, i'th Nefoedd lawen,
Amen, Amen, ni oll ddymunem.

T8p AWC 306. Recordwyd (chwe phennill yn unig) 25.10.60 gan Robert Thomas Evans (Bermo, g. 1880), Perth y Felin, Dimas Mawddwy, sir Feirionnydd. Dysgodd RTE y garol ar yr aelwyd. Fel 'Hen Garol Perth y Felin' y'i hadwaenid gynt yn lleol, oherwydd ei chanu'n gyson gan y teulu ar hyd cyfarfod ydydd pliegoiâu yn y fro. 'Y Ceiliog Du' oedd yr enw a roid ar y dôn.